# GEOPDF Coetir

## Llawlyfr Sut i Lenwi

### Cynnwys: Tudalen:


**ADRAN 1 - Y feddalwedd sydd ei hangen arnoch (Adobe Reader) 2**

- Sut i lawrlwytho'r fersiwn ddiweddaraf o Adobe Reader o'r Rhyngrwyd 2

**ADRAN 2 – Llywio'r GeoPDF 3**

- Dechrau arni 3
- Dangos Crynoluniau Tudalennau 4
- Dangos/Cuddio'r Haenau 5

**ADRAN 3 – Llunio Safleoedd Plannu / Ffensio 6**

- Gosod Priodweddau Mesur Arwynebedd a Hyd 7
- Llunio Safleoedd Plannu 8
- Llunio Hyd Ffens 9
- Ychwanegu Nodiadau i'r Map 13
- Cadw Newidiadau 14

**ADRAN 4 - Anfon GeoPDF drwy RPW Ar-lein 15**

- Mewngofnodi i'ch Cyfrif RPW Ar-lein 15
- Anfon Neges 15

## ADRAN 1 - Y feddalwedd sydd ei hangen arnoch (Adobe Reader)

### Sut i lawrlwytho'r fersiwn ddiweddaraf o Adobe Reader o'r Rhyngrwyd

Er mwyn marcio ac ysgrifennu nodiadau ar GeoPDF, bydd angen ichi osod y fersiwn ddiweddaraf o Adobe Reader. Gallwch lawrlwytho'r feddalwedd hon yn uniongyrchol o wefan Adobe, a hynny'n rhad ac am ddim.

Defnyddiwch y ddolen hon ar y rhyngrwyd:

https://get.adobe.com/uk/reader


Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y sgrin i osod Adobe Reader ar eich cyfrifiadur.

*Sylwer*: Os ydych chi eisoes wedi gosod fersiwn hŷn o Adobe Reader ar eich cyfrifiadur, mae'n bosibl na fyddwch yn gallu ysgrifennu nodiadau ar y PDF. Bydd yn rhaid ichi osod y fersiwn ddiweddaraf er mwyn gwneud hynny. Crëwyd y ddogfen ganllaw hon gan ddefnyddio Adobe Acrobat Reader fersiwn 24.005.20320.

## ADRAN 2 - Llywio'r GeoPDF

### Dechrau arni

Pan fyddwch chi'n agor y GeoPDF ar gyfer cynllun Coetir am y tro cyntaf, byddwch yn gweld rhywbeth tebyg i'r isod – sydd yn dangos map o'r ardaloedd a gafodd eu datgan ar eich Datganiad o Ddiddordeb Coetir. Mae holl haenau'r map wedi eu troi ymlaen yn rhagosodedig felly gall edrych braidd yn ddryslyd i ddechrau:




**Dangos Crynoluniau Tudalennau**

I symud rhwng tudalennau gwahanol y ddogfen, gallwch ddefnyddio’r bar sgrolio arferol, neu os hoffech weld y GeoPDF yn ei gyfanrwydd, gallwch ddefnyddio’r ffenestr Crynoluniau (*Page Thumbnails*).

Cliciwch ar yr eicon ar ochr dde’r sgrin er mwyn gweld y Crynoluniau (*Page thumbnails*).

Bydd crynoluniau o bob tudalen i’w gweld bellach ar ochr dde’r sgrin. Cliciwch ar y dudalen berthnasol i fynd yn uniongyrchol i’r dudalen honno.




## Dangos/Cuddio’r Haenau Map

Rhagosodwyd y dudalen fel bod pob haen o’r mapiau i’w gweld. Gallwch addasu’r haenau yr ydych yn eu gweld ar y map.


I ddefnyddio’r teclyn sy’n caniatáu ichi weld yr haenau (*Layer viewer),* cliciwch ar yr eicon

Byddwch chi’n gweld yr offeryn (*Layer* viewer) ar ochr dde’r sgrin. *Sylwer*: Mae gosodiadau haenau ar gael ar gyfer pob tudalen yn y GeoPDF, felly dylech wneud yn siŵr eich bod yn addasu’r set haenau cywir. Mae pob set haen yn cael ei ddynodi gan naill ai Index.pdf ar gyfer y prif fap trosolwg, neu rif parsel y cae ar gyfer tudalen parsel cae unigol.





Cliciwch i ehangu’r haenau wedi eu grwpio o’r cae yr ydych eisiau gweithio arno.

Toglwch yr eicon i ddangos neu i guddio’r haenau sydd ar y map.



## ADRAN 3 - Llunio Safleoedd Plannu / Ffensio


I lunio safleoedd plannu neu hyd ffens a thraciau, cliciwch **All Tools** ar y tab dewislen, wedyn dewiswch **Measure Objects**.




Cliciwch **Measuring Tool**. Bydd y blwch Snap Types/Measurement Types yn ymddangos:





Mae'n fuddiol i ddad-dicio'r holl Snap Types, gan y bydd hyn eich galluogi i lunio heb snapio i elfennau diangen o fewn y map.



## Gosod priodweddau mesur arwynebedd a hyd


Cyn creu safleoedd plannu neu lunio hyd ffens, bydd angen i chi newid priodweddau rhagosodedig Adobe PDF i ddangos Hectarau a Metrau. Unwaith yr ydych wedi eu gosod ni fydd angen eu hailosod eto.

Tra bo yn y modd mesuro, rhowch **glic dde** ar y map. Dewiswch **Preferences** o'r naid-rhestr:





Yn y ffenestr Preferences, dewiswch **Measuring (Geo)** o'r ochr chwith.

Gosodwch yr opsiwn '*Use default distance unit' i* **Meters** a'r '*Use Default Area Unit'* i **Hectares**. Gwnewch yn siŵr fod y ddau opsiwn wedi eu ticio ac yna cliciwch OK.




**Llunio Safleoedd Plannu (a elwir hefyd yn polygons)**

1. Gosodwch y Measurement Type i **AREA TOOL**




2. Nawr gallwch ddechrau llunio'r safle plannu. Mae’r clic gyntaf ar eich llygoden yn gosod y nod gychwynnol, ac fe fydd pob clic dilynol yn gosod pwyntiau nod pellach o amgylch eich safle dymunol.  Wrth agosáu at eich nod cychwynnol fe fydd pwyntydd eich llygoden yn newid i ddangos diwedd eich polygon plannu. Unwaith caiff ei gwblhau, fe fydd maint arwynebedd y polygon yn cael ei ddangos.




3. Er mwyn gweld y gwrthrych a gaiff ei lunio yn haws, rhowch **glic dde** ar y polygon gorffenedig, wedyn dewiswch **Properties**. Addaswch fel a ganlyn:


   (a) Gosodwch Set Style i plain line

   (b) Gosodwch thickness i 2pt

   (c) Gosodwch Colour i Red

   (d) Gosodwch Fill Colour i Light Green

   (e) Dewiswch ‘Make Properties Default’ fel nad oes rhaid i chi wneud yr addasiad hwn eto.





4. Gellir addasu arwynebedd y polygon os oes angen. Cliciwch y polygon ac fe ymddengys y nodau a nodwyd ym mhwynt 1. Gallwch nawr glicio a llusgo pob nod ac addasu yn ôl yr angen.



## Llunio Hyd Ffens

1. Gosodwch y Measurement type i **PERIMETER TOOL**




2. Nawr gallwch gychwyn llunio'r hyd ffens. Mae'r clic gyntaf ar eich llygoden yn gosod y nod gychwynnol, ac fe fydd pob clic dilynol yn gosod pwyntiau nod pellach o amgylch eich safle dymunol. Pan fydd hyd eich ffens wedi ei gwblhau, dwbl-gliciwch i orffen y ffens. Bydd maint hyd eich ffens yn cael ei ddangos.




3. Er mwyn gweld llinell y ffens a gaiff ei lunio yn haws, rhowch **glic dde** ar y llinell orffenedig, wedyn dewiswch **Properties**. Addaswch fel a ganlyn:


   (a) Gosodwch line **Start** ac **End** fel *None*

   (b) Gosodwch **Style** i Dashed

   (c) Gosodwch **Thickness** i 3pt

   (d) Gosodwch **Colour** i Green


   (e) Dewiswch 'Make Properties Default' fel nad oes rhaid i chi wneud yr addasiad hwn eto.





4. Gellir addasu llinell y ffens os oes angen. Cliciwch y llinell ac fe ymddengys y nodau a nodwyd ym mhwynt 1. Gallwch nawr glicio a llusgo pob nod ac addasu yn ôl yr angen.



## Ychwanegu Nodiadau i'r Map




1. Cliciwch ar y ddewislen **All Tools**, wedyn dewiswch yr opsiwn **Add Comments**.




2. Cliciwch y botwm  yn y ddewislen ac wedyn dewiswch yr opsiwn 'Text Callout'. Cliciwch ar rywle ar y map i ychwanegu eich blwch testun, yna ewch ati i ychwanegu testun.




3. Gellir symud/ailfeintio'r blwch text callout drwy ei ddewis. Golygwch y testun drwy ddwbl-glicio yn y blwch.

**Cadw newidiadau**


Ar ôl ichi orffen marcio'r GeoPDF, ewch i'r ddewislen ar y bar offer a chliciwch **File** > **Save As** ar far offer y ddewislen. Gallwch gadw'r ffeil ar yriant caled eich cyfrifiadur mewn man o'ch dewis, ond gwnewch nodyn o'r man cadw ar gyfer nes ymlaen oherwydd bydd angen i chi lanlwytho'r GeoPDF gorffenedig i RPW Ar-lein.

*Sylwer:* Mae'n bosibl y byddwch am newid enw ffeil y GeoPDF yr ydych wedi'i olygu er mwyn osgoi ysgrifennu dros y ddogfen wreiddiol os ydych yn cadw i'r un man ar yriant caled eich cyfrifiadur.

# ADRAN 4 – GeoPDF – Anfon i RPW Ar-lein

## Mewngofnodwch i’ch cyfrif RPW Ar-lein

Mewngofnodwch i’ch cyfrif RPW Ar-lein – rhowch eich Rhif Adnabod a’ch Cyfrinair yn y blychau a chliciwch ar y botwm **Mewngofnodi**.




## Anfon y Neges

Ar ôl ichi fewngofnodi, ewch i’r tab ‘Negeseuon’, yna cliciwch




Llenwch y blychau yn ôl y gofyn gan roi teitl priodol i’r neges, ac yna ychwanegwch eich GeoPDF fel atodiad.

Cliciwch ‘Creu’ ar ôl gorffen.

